Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 11 MAI 2009

Mae'n amser unwaith eto i'r e-fwletin a thynnir eich sylw yn gyntaf at y noson i godi arian at y Morlan sydd i'w chynnal nos Lun nesaf (18 Mai) am 7.30 – noson o farddoniaeth gydag **Iwan Llwyd a Meirion MacIntyre Huws**. Gobeithio'n fawr y dewch i gefnogi er mwyn ein cynorthwyo i barhau i gynnal yr amryw weithgareddau sy'n rhan o genhadaeth a gwaith y Morlan. Mae tocynnau yn £5 ac ar gael o'r Morlan (yn ystod oriau swyddfa). Ar y noson, bydd y Bar Coffi hefyd ar agor a bydd cyfle i brynu cryno ddisgiau gan artistiaid amrywiol – yr elw i gyd yn mynd tuag at y Morlan.

Nodir isod y digwyddiadau eraill sy'n cymryd lle yn y Morlan dros yr wythnosau nesaf.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Mawrth, 12 Mai
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

ARDDANGOSFA O FFOTOGRAFFAU: HANES MENYWOD CYMRU
10.00-4.00, Llun i Gwener, o 13 Mai ymlaen
Galwch mewn i weld arddangosfa o rai o'r eitemau amrywiol ddaeth i law yn ystod y Sioe ar Daith am hanes menywod Cymru a gynhaliwyd gan Archif Menywod Cymru yn yr hydref.

FESTEN
7.30, nos Fercher a nos Iau, 13 ac 14 Mai
Cynhyrchiad H@T Production sy'n rhan o ŴYl Ymylol Aber. Am docynnau neu fanylion pellach, e-bostiwch: hatproductions1@gmail.com.

ANERCHIAD GAN MEDWIN PARRY AR *"ARCHAEOLEG YR AIL RYFEL BYD"*
2.30, dydd Iau, 21 Mai
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

CYMHORTHFA ELIN JONES
10.00-12.00, bore Gwener, 22 Mai
Am fanylion pellach cysylltwch â swyddfa leol Plaid Cymru (01970-624516).

BORE COFFI GYDA CHADLANCIAU AMBIWLANS ST JOHN
10.00-12.00, bore Sadwrn, 23 Mai
Bore coffi wedi'i drefnu gan gangen leol Ambiwlans St John. Stondinau amrywiol.

ARHOSWCH! ... YN ENW DUW
10.00-2.00, dydd Sadwrn, 30 Mai
Ar Sadwrn y Pentecost bydd Morlan yn agos ei ddrysau am ychydig oriau gan estyn gwahoddiad a chroeso cynnes i unrhyw rai ddod i mewn i wario munudau tawel mewn myfyrdod neu weddi yn yr Ystafell Dawel.

Os gwyddoch am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr